# PWYLLGOR ARCHWILIO

**(Ystafell Bwyllgora ½ - Canolfan DDinesig Port Talbot)**

| **Aelodau sy'n Bresennol:** | **Dydd Mercher, 25 Medi 2019** |
|---|---|
| **Cadeirydd:** | **Cynghorydd J.D.Morgan** |
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd L.M.Purcell** |
| **Cynghorwyr:** | S. ap Dafydd, S.E.Freeguard, J.Miller, R.W.Wood, O.S.Davies, A.N.Woolcock, A.J.Richards a/ac H.C.Clarke |
| **Swyddogion sy'n Bresennol** | A.Evans, C.Griffiths, H.Jones, C.D.Millis, A.M.O'Donnell and J.Woodman-Ralph |
| **Cynrychioli Swyddfa Archwillio Cymru:** | G.Gillett |
| **Aelod Lleyg sy'n Pleidleisio:** | J.Jenkins |

---

## 1. DATGANIADAU O FUDD

Gwnaeth yr aelod canlynol ddatganiad o fudd ar ddechrau'r cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd H Clarke | Parthed: Adroddiad preifat y Pennaeth Cyllid am ei bod hi'n Is-gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur. |

## 2. MYNEDIAD I GYFARFODYDD

**PENDERFYNWYD:** Yn unol ag Adran 100A(4) a (5) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y cyhoedd o'r eitemau busnes canlynol a oedd yn cynnwys datganiadau posib o wybodaeth eithriedig, fel a diffinnir ym Mharagraff 12 ac 15 Adran 4 Atodlen 12A y Ddeddf uchod.

3. **UNRHYW EITEMAU BRYS (BOED YN GYHOEDDUS NEU'N EITHRIEDIG) YN Y CADEIRYDD YN UNOL AG OFFERYN STATUDOL 2001 RHIF 2290 (FEL Y'I DIWYGIWYD)**

Cadarnhaodd y Cynghorydd H K Clarke ei budd a gadawodd y cyfarfod.

Derbyniodd aelodau wybodaeth am yr archwiliadau a gynhaliwyd yn y chwarter olaf fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Torrodd cyfarfod y pwyllgor am 2.25pm.

Ailgyfarfu’r pwyllgor am 2.45pm.

**PENDERFYNWYD:** Gohirio adroddiad rhif 11, eitem 4 o'r adroddiad a ddosbarthwyd i gyfarfod y pwyllgor archwilio yn y dyfodol. Yn ychwanegol, yr ailgyflwynir yr adroddiad i’r pwyllgor mewn da bryd.

Parhaodd trafodaeth ar yr eitemau ychwanegol a oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad preifat a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Y dylid nodi'r adroddiad.

**- Penderfynodd y pwyllgor agor sesiwn agored -**

4. **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Gorffennaf 2019 fel cofnod cywir.

5. **DIWEDDARIAD Y PWYLLGOR ARCHWILIO - CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

Derbyniodd yr aelodau ddiweddariad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar eu rhaglen waith gyfredol a chynlluniedig.

**PENDERFYNWYD:** Y dylid nodi'r adroddiad.

6. **PWYLLGOR ARCHWILIO-ANNUAL REPORT 2018-2019**

Derbyniodd yr aelodau drosolwg o - Adroddiad Blynyddol 2018 - 2019 y Pwyllgor Archwilio fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Rhoi cymeradwyaeth honno i anfon yr Adroddiad Blynyddol 2018 - 2019 at y cyngor.

7. **ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL HYD AT 31 AWST 2019**

Derbyniodd y pwyllgor yr Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol hyd at 31 Awst 2019 fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Rhoddodd yr adroddiad fanylion y gwaith a wnaed ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol o'i gymharu â'r hyn a gynhwyswyd yn y Cynllun Archwilio Mewnol ac amlygodd faterion sy'n berthnasol i berfformiad yr adran.

Esboniwyd y bu oedi wrth gwblhau'r nifer rhaglenedig o archwiliadau. Roedd hyn oherwydd y bu’n rhaid ymestyn yr amserlen ar gyfer cynnal archwiliadau oherwydd cymhlethdod yr ymchwiliadau.

Cafwyd trafodaeth ynghylch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Cytunwyd y byddai Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn ysgrifennu at y Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes yn gofyn am anfon llythyr at bob ysgol yn ardal Castell-nedd Port Talbot, yn gofyn am gadarnhad bod yr holl wiriadau GDG angenrheidiol wedi'u cyflawni.

**PENDERFYNWYD:** Y dylid nodi'r adroddiad.

8. **MONITRO RHEOLAETH Y TRYSORLYS 2019/2020**

Derbyniodd y pwyllgor wybodaeth Monitro Rheoli’r Trysorlys 2019/2020 fel y nodwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWD:** Y dylid nodi'r adroddiad.

**CADEIRYDD**